# Diogelu Data Ysgolion ac Addysg Uwch



Cyngor Caerdydd yw'r Swyddog Diogelu Data a gontractir ar gyfer ysgolion ledled Caerdydd. Mae ein tîm wedi ymrwymo i helpu ysgolion i fodloni gofynion GDPR a rhagori arnynt gan hyrwyddo atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth ym maes diogelu data sydd weithiau'n heriol. Rydym ar gael i gynnig arweiniad cyfeillgar ac amserol i'ch helpu i gyflawni'r nod hwn.

Yr hyn a gynigiwn:


- Cyngor o ddydd i ddydd ar faterion diogelu data.
- Arweiniad ar ymdrin â digwyddiadau Diogelwch Data.
- Digwyddiadau hyfforddi rhanbarthol a hyfforddiant pwrpasol mewnol ar gyfer ysgolion.
- Datblygu ac adolygu Polisïau Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth ysgolion.
- Mynediad at fodiwlau hyfforddiant e-ddysgu.

HIGH QUALITY TRAINING FOR THE PUBLIC SECTOR

SOLUTIONS

# Data Personol:





HIGH QUALITY TRAINING FOR THE PUBLIC SECTOR
SOLUTIONS

# Yr Egwyddorion Diogelu Data Allweddol

Er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol gwrthrychau data, dylai ysgolion ddilyn sawl egwyddor allweddol:




HIGH QUALITY TRAINING FOR THE PUBLIC SECTOR
SOLUTIONS

Mae mesurau diogelwch posibl ar gyfer diogelu data yn cynnwys:

- Carpio pob gwastraff cyfrinachol.
- Defnyddio cyfrineiriau cryf.
- Rhoi wal dân a gwiriwr feirysau ar waith ar eich cyfrifiaduron.
- Amgryptio unrhyw wybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw'n electronig.
- Analluogi unrhyw osodiadau 'cwblhau'n awtomatig'.
- Cynnal galwadau ffôn mewn mannau preifat.
- Cyfyngu ar fynediad, h.y. dim ond y rhai y mae gwir angen iddynt gael mynediad at y data
- Gwirio diogelwch systemau storio.
- Cadw dyfeisiau dan glo pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.
- Peidio â gadael papurau a dyfeisiau mewn lle y bydd modd i rywun gael gafael arnynt.

# Deall Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

## 1. Ymwybyddiaeth

Mae'n bwysig bod pob aelod staff yn gwybod mor bwysig y mae diogelu data a sut i gydymffurfio â'r rheoliad.

## 2. Gwybodaeth a gedwir gennych

Mae’n allweddol deall pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu a'i chadw er mwyn ei diogelu’n llawn a chydymffurfio â deddfwriaeth. Mae’r gofrestr asedau yn ffordd o'ch helpu i ddeall a rheoli asedau gwybodaeth eich sefydliad a'u trefnu. I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar ein dogfen ganllaw.

## 3. Hysbysiadau preifatrwydd

Rhaid i'r rhain fod mewn Saesneg/Cymraeg clir a bod yn hawdd eu deall. Rhaid rhoi hysbysiadau preifatrwydd ar adeg casglu data personol, a rhaid rhoi gwybod i unigolion am unrhyw newidiadau.

## 4. Hawliau unigolion

Mae gan unigolion hawliau penodol mewn perthynas â sut rydym yn prosesu eu data personol. Rhaid i ysgolion sicrhau nad yw'r hawliau hyn yn cael eu cyfaddawdu mewn unrhyw ffordd.

## 5. Ceisiadau hawliau unigol

Mae gan unigolion hawl i ofyn am eu data personol y mae ysgolion yn cadw arnynt, yn ogystal â'r hawl i ddileu neu gywiro data personol lle bo hynny'n briodol.

## 6. Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data

Rhaid bod gennych sail gyfreithlon ddilys i brosesu data personol. Mae pecyn cymorth ar gael i'ch helpu i nodi pa sail gyfreithlon rydych yn dibynnu arni.

## 7. Cydsyniad

Dim ond os nad oes rheswm cyfreithlon arall dros brosesu data y dylid cael caniatâd a dibynnu ar y caniatâd hwnnw. Rhaid i ganiatâd gael ei roi’n weithredol a rhaid gallu ei dynnu’n ôl ar unrhyw adeg.

## 8. Plant

Erbyn hyn, mae gan blant dros 13 oed yr un hawliau ag oedolion o ran data personol, a rhaid adlewyrchu hyn yn ein hysbysiadau preifatrwydd.

## 9. Mynediad Diawdurdod at Ddata

Mae bellach angen rhoi gwybod i’r Comisiynydd Gwybodaeth am achosion o fynediad diawdurdod at ddata o fewn 72 awr. Rhaid rhoi gwybod am bob achos o fynediad diawdurdod i’r Tîm Colli Data o fewn 24 awr; peidiwch â chynnal eich ymchwiliad eich hun cyn adrodd y digwyddiad i ni.

HIGH QUALITY TRAINING FOR THE PUBLIC SECTOR
SOLUTIONS

# Mynediad Diawdurdod at Ddata

Gwall

Dinistrio, colli, newid, datgelu'n ddiawdurdod, neu fynediad at, data personol sy'n cael ei roi, ei storio neu fel arall ei brosesu'n ddamweiniol neu'n anghyfreithlon. Erthygl 4 (12)

Colli Asedau

Digwyddiad E-bost

Colli data


**Rhaid rhoi gwybod am bob achos posibl o fynediad diawdurdod at ddata i'r adran Llywodraethu Gwybodaeth o fewn 24 awr o ddod yn ymwybodol ohono.**

**E-bost: ysgolionllywodraethugwybodaeth@caerdydd.gov.uk**


HIGH QUALITY TRAINING FOR THE PUBLIC SECTOR

SOLUTIONS

## Mathau o ddigwyddiadau




## Digwyddiadau diogelu data a adroddwyd o fewn 24 awr (2018-2020)




HIGH QUALITY TRAINING
FOR THE PUBLIC SECTOR
SOLUTIONS

# A WYDDECH CHI?

Rhaid i chi gadw cofnod o unrhyw achosion o fynediad diawdurdod at ddata personol waeth a oes angen i chi roi gwybod amdanynt ai peidio.

Mae'n orfodol bod Swyddog Diogelu Data'r sefydliad yn ymchwilio i bob digwyddiad ac yn gwneud argymhellion ac yn cynnig camau gweithredu o ganlyniad i unrhyw achos o fynediad diawdurdod at

Gall methu â chydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data arwain at gamau gorfodi a dirwy o hyd at £17,000,00!

Bydd y Swyddog Diogelu Data yn gwneud penderfyniad ar adrodd y digwyddiad i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr o gael gwybod am yr achos o fynediad diawdurdod i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau.

Mae hyfforddiant yn allweddol!

HIGH QUALITY TRAINING FOR THE PUBLIC SECTOR

SOLUTIONS

# Hawliau Unigolion

Mae'r GDPR yn rhoi'r hawliau canlynol i unigolion:

1. Yr hawl i gael gwybod



2. Yr hawl i gael mynediad



3. Yr hawl i gywiro




4. Yr hawl i ddileu



5. Yr hawl i gyfyngu ar brosesu



6. Yr hawl i gludadwyedd data



7. Yr hawl i wrthwynebu



HIGH QUALITY TRAINING FOR THE PUBLIC SECTOR

SOLUTIONS

Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o’r ddwy hawl unigol ganlynol yn arbennig:

1. Yr hawl i gael gwybod

Mae’r hawl i gael gwybod yn cwmpasu rhai o ofynion tryloywder allweddol y GDPR. Mae'n ymwneud â rhoi gwybodaeth glir a chryno i unigolion am yr hyn a wnewch gyda'u data personol.

Er mwyn bodloni gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), mae disgwyl i ysgolion gyhoeddi **Hysbysiad Preifatrwydd** i blant a phobl ifanc a/neu rieni a gwarchodwyr yn crynhoi’r wybodaeth sy’n cael ei dal ar gofnod am blant a phobl ifanc, pam y’i cedwir, a’r trydydd partïon a allai fod yn ei derbyn.

2. Yr hawl i gael mynediad

Mae gan unigolion hawl i gael mynediad at eu data personol. Fel arfer cyfeirir at hyn fel **cais gwrthrych am wybodaeth**. Gellir gwneud cais gwrthrych am wybodaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Un o'r pwyntiau pwysicaf i'w gofio am geisiadau gwrthrych am wybodaeth yw bod yn rhaid i ysgolion ymateb o fewn un mis calendr. Fodd bynnag, gall cais gwrthrych am wybodaeth gael ei ymestyn am ddau fis arall os yw'n gymhleth neu os oes nifer o geisiadau wedi dod i law oddi wrth yr unigolyn. Fodd bynnag, rhaid rhoi gwybod i'r unigolyn am hyn cyn pen mis ar ôl i’r cais hwn ddod i law ac egluro pam mae angen gwneud hynny.

I gael mwy o wybodaeth am geisiadau gwrthrych am wybodaeth, edrychwch ar ein dogfen ganllaw.

GDPR
The General Data Protection Regulation

CARDIFF
CAERDYDD

HIGH QUALITY TRAINING
FOR THE PUBLIC SECTOR
SOLUTIONS